PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

CROESO WELCOME

Cymorth Cymheiriaid
Peer Support

# Cymorth Cyfoedion CroesoAber



# Cyflwyno Cymorth Cyfoedion CroesoAber

**Fel myfyriwr newydd sy'n dod yma i astudio yn Aberystwyth y gobaith yw bydd yn antur newydd gyffrous yn eich taith bywyd.**



Efallai bydd yna bryderon a heriau bydd yn rhaid i chi oresgyn yn ystod yr wythnosau neu'r misoedd cyntaf yn benodol. Gall yr heriau hyn amrywio o ddarganfod ble mae adeiladau, darlithoedd a digwyddiadau'n cymryd lle ar draws ein campws, i fyw'n annibynnol neu i fod i ffwrdd o gartref am y tro cyntaf. Fel myfyriwr newydd, gall addasu i arddull ddysgu fwy annibynnol fod yn anesmwyth ar y dechrau a dysgu sut i reoli eich amser yn fwy effeithiol.

Mae dechrau yn y brifysgol yn gyfnod cyffrous ond yn gallu bod yn un frawychus ar yr un pryd felly! Dyma lle gall cefnogaeth gan gymheiriaid fod o gymorth mawr i chi.

Mae ein cynllun cymorth Cymheiriaid Croeso Aber yma i helpu arwain myfyrwyr newydd trwy gyffro a phryderon bywyd prifysgol. Pwy well i roi'r cyngor hyn ond cyd-fyfyrwyr sydd wedi bod trwy'r un sefyllfaoedd yn ddiweddar.

Mae ein cynllun cymorth cymheiriaid yn darparu'r sicrwydd sydd o bosib ei hangen arnoch fel myfyriwr newydd yn Aberystwyth a'ch helpu i lywio trwy dechrau'r daith yn y brifysgol.

Byddwn hefyd yn cefnogi eich cyfnod pontio i'r brifysgol drwy ganolbwyntio ar saith bwynt allweddol yn eich saith wythnos gyntaf trwy ein themâu Ymgartrefu Estynedig CroesoAber.

## Nod ein Cynllun Cymorth Cyfoedion Croeso Aber yw...

- eich croesawu i'n cymuned wych yma ym Mhrifysgol Aberystwyth gan ein myfyrwyr presennol.
- rhoi cyfle i chi elwa o'r wybodaeth a phrofiadau myfyrwyr eraill sydd wedi bod trwy'r hyn rych chi'n mynd drwyddo, ac iddyn nhw rannu eu profiadau o'r flwyddyn gyntaf efo chi.
- hwyluso'r broses pontio i fywyd prifysgol fel eich bod yn dod yn gyfarwydd â'ch amgylchedd academaidd a'r amgylchedd ehangach ar y campws.
- eich cyfeirio at y gwasanaethau priodol cywir a'r amryw ohonynt sydd ar gael yn ystod eich wythnosau cyntaf efo ni yn Aberystwyth fel y gallwn ddarparu cefnogaeth barhaus pan fydd ei hangen arnoch.
- ateb unrhyw gwestiynau llosg sydd gennych ynghylch bywyd prifysgol a lleddfu unrhyw ofnau a allai fod gennych wrth i chi ddechrau ar eich taith fel myfyriwr gyda ni.

## Rydyn ni'n cynnig...

### Arweinwyr Cyfoed Adrannol

Mae Arweinwyr Cyfoed Adrannol yn cynnig cymorth, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad anffurfiol i chi wrth ddechrau eich taith prifysgol. Bydd Arweinyddion Cyfoed yn astudio yn yr un adran (au) â chi ac yn eich helpu i ymgartrefu i fywyd prifysgol ac academaidd drwy rannu eu profiadau efo chi. Wrth I chi ddarganfod eich ffordd trwy'r cyfnod cyfeiriadaeth ac ymgartrefu maent wrth law i'ch croesawu a'ch cefnogi.



### Themâu Ymgartrefu Estynedig

Rydym yn ffocysu ar saith brif thema i'ch galluogi chi i wneud y gorau o'ch hamser gyda ni yn ystod eich cyfnod pontio i'r Brifysgol. Wrth i chi ddechrau ymgyfarwyddo â'r brifysgol rydym am gefnogi eich cyfnod pontio i'r brifysgol, ac i chi ddod i adnabod y Brifysgol yn well.

# Arweinwyr Cyfoed Adrannol

## Sut mae Arweinydd Cyfoed Adrannol yn gallu helpu?

- Drwy gyflwyno eu hunain i chi yn ystod cyfnod Cyn Aber (cyn cyrraedd) gall arweinydd fod yn bwynt cyswllt cyntaf i chi leddfu'ch pryderon cyn i chi gyrraedd y campws.
- Gwneud cyfeiriadedd yn brofiad llai brawychus a'ch helpu chi lywio trwy'r cyfnod hwn.
- Eich helpu gyda chwestiynau sy'n benodol i'ch adran (e.e. modiwlau neu bwyntiau cyswllt o fewn yr adran) yn ogystal â chwestiynau a phryderon sylfaenol eraill a allai fod gennych ynghylch bywyd myfyriwr.
- Fel myfyrwyr sydd eisoes wedi ymgartrefu ers o leiaf blwyddyn, gallwch ddysgu o'u profiadau nhw a chael awgrymiadau a chyngor ymarferol ganddynt.
- Bod ar gael drwy gydol yr wythnosau a'r misoedd cyntaf i ddarparu rhagor o wybodaeth a sicrwydd pan fydd ei angen arnoch ar yr adegau cywir. Helpu i'ch cyfeirio drwy'r cyfnod ymgartrefu estynedig i wneud y cyfnod cychwynnol ym Mhrifysgol Aberystwyth yn un da.



## Sut mae'n gweithio?

Bydd gan y mwyafrif o adrannau academaidd dîm o arweinwyr cyfoed adrannol sydd ar hyn o bryd yn astudio yn eu hail neu drydedd flwyddyn neu ar lefel ôl-raddedig. Gan ddibynnu ar yr adran rydych yn astudio gyda hi, mae'n bosibl y bydd arweinydd cyfoed yn cysylltu â chi yn awtomatig cyn i chi gyrraedd, neu bydd eich adran yn cysylltu â chi i ofyn a ydych yn dymuno cofrestru ar gyfer arweinydd cyfoed neu beidio.

Bydd yr Arweinydd Cyfoed yn trafod efo chi sut yr hoffech gwrdd a bydd cyfleoedd amrywiol o amgylch y cyfnod croeso i chi ofyn cwestiynau a derbyn gwybodaeth a fydd o gymorth. Byddwch yn derbyn gwybodaeth drwy e-bost a chyfleoedd eraill i gysylltu pan fydd ei hangen arnoch.



# Themâu Ymgartrefu Estynedig CroesoAber

## 1 Ymgartrefu Aber

Gydag Ymgartrefu Aber, cei gyfle i wneud ffrindiau, i deimlo'n gartrefol ac i ymgyfarwyddo â'r campws. Croeso i Aber!

## 2 Astudio Aber

Gyda Astudio Aber, cei ddatblygu arferion da wrth astudio, ac i ymgyfarwyddo â gwasanaethau'r llyfrgell a chyrsiau dysgu gydol oes.

## 3 Cefnogaeth a Lles Aber

Mae Cefnogaeth a Lles Aber yn dy helpu i ffynnu ac i ddod o hyd i'r cymorth y gall ein gwasanaethau ei ddarparu. Mae cefnogaeth ar gael pan fyddi di ei hangen.

## 4 Ieithoedd a Gyrfaoedd Aber

Mae Ieithoedd a Gyrfaoedd Aber yn galluogi iti ddatblygu ar dy orau. Wrth iti astudio yma, cei wybod am ieithoedd newydd, am gyfleoedd ymarferol i wella dy gyflogadwyedd ac am brofiadau yn y byd mawr y tu hwnt i Aber.

## 5 Amgylchedd a Chynaliadwyedd Aber

Mae Amgylchedd a Chynaliadwyedd Aber yn dwyn ynghyd yr holl waith amrywiol a phellgyrhaeddol ry'n ni'n ei wneud ym maes cynaliadwyedd. Tyrd i fod yn rhan o'r gwaith ac i ddathlu ein prosiectau cynaliadwyedd ym meysydd bioamrywiaeth, trafnidiaeth a llawer mwy.

## 6 Sgiliau Aber

Mae Sgiliau Aber yn dy helpu i ehangu, i archwilio ac i wella dy sgiliau digidol fel myfyriwr yma yn Aber. Cei ddysgu sut i ddefnyddio offer chwilio digidol, i sut y gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial er gwell.

## 7 Cymuned a Diwylliant Aber

Gyda Chymuned a Diwylliant Aber, cei fod yn rhan o gymuned a ddaw mewn dim o dro'n gartref newydd. Mae Aber a'r cyffiniau'n llawn i'r ymylon o brofiadau diwylliannol rhyfeddol. Nid lle gwych i ddysgu'n unig yw Aber, ond cymuned fyw a llawn bywyd ac amrywiaeth.

